PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Sut i wneud y mwyaf o Ddiwrnod Agored:

Cymorth i Rieni

Cyflwyniad

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Ar hyn o bryd mae eich mab/merch yn wynebu nifer o ddewisiadau, felly sut allwch chi ei helpu i wneud y dewis cywir? Un peth defnyddiol y gallwch ei wneud yw mynd â nhw i Ddiwrnod Agored mewn prifysgol fel y gallwch chi a'ch mab/merch weld yr adnoddau trosoch eich hun.

Yn yr erthygl hon fe gewch chi awgrymiadau defnyddiol ar gyfer helpu eich mab/merch i baratoi am Ddiwrnod Agored, yr hyn y dylien nhw feddwl amdano ar y dydd, a'r hyn sydd angen ei wneud ar ôl ichi gyrraedd adref.

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cyn i chi ymweld

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Anogwch eich mab/merch i **ddarllen am y brifysgol** a chwilio am gyfeirlyfrau amgen, gan fod rheini'n rhoi golwg wahanol ar y lle – mae gan Brifysgol Aberystwyth brospectws amgen, wedi ei ysgrifennu gan fyfyrwyr. Gwnewch yn siwr fod eich mab/merch wedi rhoi gwybod i'r Brifysgol eich bod yn ymweld; mae'r rhan fwyaf o brifysgolion angen ichi gofrestru am Ddiwrnod Agored.

Trafodwch yr ymweliad gyda'ch mab/merch, a helpwch ef/hi i baratoi cynllun gweithredu er mwyn cadw ei ffocws ef/hi ar yr hyn sydd ar fin digwydd. **Edrychwch ar y rhaglen gyda'ch gilydd**, a helpwch ef/hi i benderfynu cyn y Diwrnod Agored beth y mae eisiau ei wneud a'i weld. Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod ble mae'r adran y mae eisiau'i gweld.

Helpwch nhw i **feddwl am y pethau maen nhw eu heisiau eu gwybod a'r pethau sydd angen arnyn nhw eu gwybod** am y brifysgol, er enghraifft:

- A yw'r brifysgol yn rhy agos neu'n rhy bell o gartref?
- A ydyn nhw eisiau awyrgylch campws neu awyrgylch dinas?
- A fydd ganddyn nhw'r bywyd cymdeithasol a'r adnoddau chwaraeon y maen nhw ei eisiau?
- A allen nhw dreulio a mwynhau 3 blynedd yno?
- Sut lety sydd yno?
- Pa agweddau ar fywyd prifysgol sy'n hanfodol iddyn nhw?
- Pa nodweddion y gallen nhw wneud hebddynt?

Cyn i chi ymweld

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Gwnewch yn siwr nad ydyn nhw'n mynd i'r Diwrnod Agored heb gwmni. Mae'n bwysig iddyn nhw allu trafod â rhywun, i gael safbwynt gonest ail berson, ac i ofyn unrhyw gwestiynau eraill ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o ddarpar fyfyrwyr yn mynd â'u rhieni/ gwarchedwaid neu ffrind gyda nhw. **Peidiwch â bod yn swil i ofyn rhai cwestiynau**, oherwydd gan amlaf mae na bobl eraill eisiau gwybod yn union yr un peth.

Ymhlith y **pethau sydd angen ichi fynd gyda chi** mae:

- copi o fap o'r campws
- amserlen y Diwrnod Agored
- pen a phapur
- rhestr o faterion pwysig i'w hystyried
- côt - fyddwch chi ddim yn gallu canolbwyntio os byddwch chi'n oer ac yn wlyb

Mae'n syniad da gadael y tŷ'n gynnar fel bod gennych amser i ymlacio cyn i'r diwrnod ddechrau, y peth olaf sydd ei eisiau arnoch chi yw dod mas o'r car a mynd yn syth i mewn i daith wedi ei thywys, yn enwedig os daethoch o bell. Ceisiwch ymweld ag un brifysgol mewn diwrnod, oherwydd maen nhw'n gallu bod yn ddyddiau hir a blinedig.

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Ar y dydd

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Y mae'n debygol y bydd rhaid ichi **gofrestru** a mynd i rhyw fath o sgwrs groeso. Mae rhai o'r cyflwyniadau rhagarweiniol hyn yn hanfodol felly peidiwch â gadael i'ch mab/merch eu colli, a gwnewch yn siwr eich bod yn cyrraedd mewn pryd.

Anogwch eich mab/merch i **siarad â myfyrwyr sydd yma ar hyn o bryd** sy'n gallu rhoi safbwynt gwahanol, a gwnewch yn siwr eu bod yn dod o hyd i diwtor o'r adran er mwyn gallu trafod y cwrs.

Ceisiwch **fynd ar yr holl deithiau addas**. Ewch i weld y campws, ystafelloedd tiwtorial a darlithoedd yr adran, ac ewch i weld y labordai, yr adnoddau cyfrifiadurol ac adnoddau'r llyfrgell. Cymerwch olwg ar y **llety** sydd ar gael a holi cwestiynau, er enghraifft:

a) A oes mynediad i'r rhyngrwyd ac a yw am ddim?
b) Sut bethau yw'r cyfleusterau coginio ac ymolchi?
c) Pa mor ddiogel yw'r ystafelloedd?
ch) Beth yw'r rhent fesul wythnos, pa mor aml sy'n rhaid ei dalu a beth sy'n digwydd yn ystod y gwyliau?

Ar y dydd

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Mae angen cael gwybodaeth am gymorth ariannol, gan gynnwys bwrsariaethau ac ysgoloriaethau. Ym Mhrifysgol Aberystwyth mae'r bwrsariaethau a'r ysgoloriaethau mynediad gyda'r mwyaf gwerthfawr a chynhwysfawr o blith prifysgolion Prydain.

Ceisiwch **fwyta mewn ffreutur ar y campws** i wneud yn siwr eu bod yn dda! Os cewch chi gyfle, ceisiwch **weld rhannau o'r campws nad ydyn nhw'n cael eu dangos fel arfer**, ond y byddwch chi'n eu gweld pan fyddwch yn fyfyriwr, e.e. y stafelloedd golchi dillad.

Peidiwch â gadael i'r amserlen swyddogol gyfyngu arnoch chi, mae llawer o ddarpar-fyfyrwyr yn aros ymlaen tan i'r diwrnod orffen yn swyddogol oherwydd ei bod yn aml yn haws bryd hynny i gael sgwrs fanylach â thiwtor, ac mae hefyd yn ffordd dda o gael ymdeimlad o awyrgylch y brifysgol ar ôl i'r prysurdeb gwyllt ddod i ben.

Pan fydd y Diwrnod Agored swyddogol drosodd, **ewch am dro yn y dre**, i gael syniad o sut beth allai hi fod i fyw yno. Mae gan Aberystwyth nifer o siopau bychain a siopau stryd fawr, yr holl adnoddau y gallech chi fod eu hangen, ac ar ben y cwbl mae yn dre lan môr ac mae yma olygfeydd gwych i'w mwynhau.

Pan fydd popeth drosodd

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Bydd gan eich mab/merch lawer o wybodaeth i'w hystyried. Gwnewch yn sicr nad yw'n teimlo dan bwysau i ddewis, a'u bod yn cymryd eu hamser i ystyried y cwbl. Un peth sy'n gallu bod yn effeithiol iawn er mwyn cael golwg iawn ar y dydd, a rhoi trefn ar y meddyliau yw **sesiwn anffurfiol o drafod yn y car neu ar ôl cyrraedd nôl**.

Cofiwch y bydd ef/hi yn gorfod treulio tair blynedd neu fwy yn y brifysgol, felly **mae'n bwysig ichi wneud yn siwr mai nhw sy'n gwneud y penderfyniad eu hun** am y brifysgol sy'n fwyaf addas i'w anghenion.

Ewch nôl dros yr ymweliad unwaith eto ar ôl rhai dyddiau, ac edrych ar bopeth o'r newydd. Os yw eich mab/merch yn dal yn ansicr, helpwch nhw i wneud rhestr o fanteision ac anfanteision y brifysgol. Er y gallai hyn ymddangos ychydig yn ddiflas a beichus, gall eu helpu i weld pethau'n gliriach trostynt eu hunain.

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Pan fydd popeth drosodd

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Os ydyn nhw'n dal yn ansicr, anogwch hwy i baratoi rhai cwestiynau newydd a ffoniwch y brifysgol i gael atebion. Bydd staff ym Mhrifysgol Aberystwyth yn fwy na pharod i helpu.

Ar ôl hyn i gyd os ydyn nhw'n dal yn ansicr, pam na ddewch chi ar ymweliad arall â'r brifysgol. Mae gan Brifysgol Aberystwyth hefyd ddyddiau ymweld sy'n rhoi mwy o sylw i'r adrannau unigol, dyddiau rhagflas, ac ymweliad deuddydd, sef 'Profiad Aber', fel ffordd arall o roi cyfle i'ch mab/merch gael ymdeimlad o'r lle.

Gallwch wneud y cwbl hyn ym Mhrifysgol Aberystwyth, felly pam na ddewch chi i ymweld â ni!

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Dyddiau Agored 2011

- Cyflwyniad
- Cyn i chi ymweld
- Ar y dydd
- Pan fydd popeth drosodd
- Dyddiau Agored yn Aberystwyth

Dydd Mercher 6ed Gorffennaf, Dydd Mercher 14eg Medi, Dydd Sadwrn 15ed Hydref 2011

Pleidleisiwyd mai ni yw y gorau yn y DU am fodlonrwydd myfyrwyr
Dewch i weld ein hadnoddau gwych trosoch eich hun...

"Fe fydden i'n argymell ichi fynd i Ddiwrnod Ymweld, er mwyn gallu mynd o gwmpas y Brifysgol a siarad â darlithwyr am y cwrs."

Angharad Llewellyn, BSc Daearyddiaeth gyda Chymraeg, Llandysilio, Sir Benfro

"Fe ddes i Aberystwyth ar Ddiwrnod Agored, a dweud os nad on i'n gallu dod i Aberystwyth na fyddwn i'n mynd i brifysgol. Syrthies i mewn cariad â'r lle ar unwaith."

Leo Henley Lock, BSc Rheoli Cefn Gwlad, Crawley, Sussex

I gofrestru i ddod i Ddiwrnod Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth, ewch i'n gwefan:
www.aber.ac.uk/cy/open-days
neu cysylltwch â'r Swyddfa Marchnata a Denu Myfyrwyr ar **01970 622065**

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY